# DINESYDD
## Tachwedd

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1979

RHIF 62


# THEATR YR YMYLON YN CAU

**Ar Hydref 3ydd cyhoeddwyd y newyddion trist na welir Cwmni Theatr yr Ymylon yn perfformio ar lwyfannau Cymru eto. Y prif reswm am ddirwyn y cwmni i ben yw'r ffaith nad oedd wedi llwyddo i sicrhau digon o ymrwymiadau gan y theatrau i dderbyn perfformiadau o'r tri chynhyrchiad a oedd i ffurfio ail hanner rhaglen y cwmni am y flwyddyn ariannol hon.**

**Nid oes gwirionedd yn y si fod y cwmni eisoes wedi gwario'r cymhorthdal o £90,000 a gynigiwyd iddynt am y flwyddyn; fodd bynnag, pe bai'r cwmni wedi parhau i weithredu heb sicrwydd ymrwymiadau perfformio i ddarparu'r incwm angenrheidiol drwy werthu tocynnau, byddai wedi mynd yn ddwfn i ddyled erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.**

**Yn anffodus, ymddengys nad mater o atal gweithredu dros dro mo hyn (fel sydd wedi digwydd o'r blaen yn hanes y cwmni hwn), ond yn hytrach cau'r drysau am byth, gan nad yw'n fwriad gan Gyngor y Celfyddydau i gynnig cymhorthdal i'r Cwmni y flwyddyn nesaf. Er gwaetha'r problemau ariannol a gweinyddol y mae'r cwmni hwn wedi dioddef oddi wrthynt, gwnaeth gyfraniad aruthrol i'r theatr yng Nghymru dros y chwe blynedd diwethaf, gan fentro i gyflwyno dramâu newydd a chyffrous fel** *Y Cadfridog* (Michael Povey) a *Small Change* (Peter Gill) yn ogystal ag arlwy o glasuron Cymraeg megis dramâu Saunders Lewis a hen ffefrynau Saesneg megis *Bless this House* (Eynon Evans) a *The Corn is Green* (Emlyn Williams). Heb sôn, wrth gwrs am un o gynyrchiadau dramatig mawr y degawd, sef yr opera roc *Dic Penderyn*, a gyflwynwyd yn Eisteddfod Caerdydd. Gedy fwlch mawr iawn ar ei ôl, ac un o effeithiau mwyaf difrifol cau'r cwmni fydd cyfyngu ar y cyfle sydd yng Nghymru i gyflwyno gwaith newydd gan ddramodwyr Cymraeg a Chymreig.

Un cwestiwn y byddai'n dda cael ateb iddo yw beth sydd yn mynd i ddigwydd i'r arian sydd dros ben (rhyw £30,000, mae'n debyg). Yn ôl Cyngor y Celfyddydau, tynnir yn arian yn ôl ar ôl talu dyledion ac anrhydeddu ymrwymiadau presennol y cwmni — ond beth fydd ei hanes wedyn? Gyda'r holl alwadau sydd ar adnoddau cyfyng Adran Ddrama'r Cyngor, a chyda toriadau'r llywodraeth yn bygwth bodolaeth cwmniau cyfain, ni allwn ond hyderu y bydd yr arian hwn yn dal i fod ar gael i bwrpas drama yng Nghymru, ac nid yn diflannu yn ôl i mewn i gronfa gyffredinol Cyngor y Celfyddydau neu'n cael ei ddosbarthu i adran arall.




***'Dyma'r Terfyn', meddai Dougal, 'Dyma'r Terfyn', meddai Brian; 'Dyma'r Terfyn', meddai Zebedee. 'Dyma hen dro', meddai Florence.***

## YMDDEOLIAD

Mae Dinasyddion Caerdydd yn gwybod am y Parch Morgan Mainwaring fel un o bregethwyr mawr y genedl ac edrychai aelodau pob enwad ymlaen at y Sul y byddai'n ymweld â nhw gan wybod y byddent yn cael profiad mawr o wrando arno'n pregethu.

Roedd yn Weinidog ar y Capel yn Pembroke Terrace cyn mynd yn Ysgrifennydd y Genhadaeth ac oddiar y cyfnod hwn bu yn yr India ac yn Hong Kong yn cynrychioli Cymru. Mae wedi'n hysbrydoli wrth sôn sut y bu i gyfarfodydd bach gweddi led-led Cymru a gwaith Chwiorydd fod yn foddion i Dduw i symud yn ei rym ar is-gyfandir fel yr India ac edrychwn ymlaen at gael mwy a mwy o'i gwmni ef a Mrs Mainwaring ar ôl eu hymddeoliad. Un o fechgyn disglair Porthtalbot yw Mr Mainwaring, ond erbyn hyn fe'u hystyriwn ef yn un o'n dinasyddion ni.


## NOSON LAWEN WERINOL

Cymdeithas Gymraeg Pentwyn, Llanedeyrn a'r Cylch.

CANOLFAN GYMDEITHASOL
LLANEDEYRN (Maelfa)

NOS SADWRN 1af RHAGFYR. 8.00p.m.

Tocynnau: £1.50. Ffoniwch: 757514/750266/753271. Ext. 3344 (dydd).

Elw i'r DINESYDD
**CROESO I BAWB!**

# Golygyddol

Yn y rhifyn hwn y mae llythyr 'At y Dinesydd' — heb gyfeiriad, heb enw wedi'i dorri wrtho, a'r amlen wedi'i chyfeirio'n ofalus mewn prif lythrennau â rhywbeth fel set argraffu plant. "Ymateb" — er mai negyddol iawn a dweud y lleiaf — yw'r llythyr i apel ein Trysorydd am gefnogaeth ariannol i gynnal y papur.

Fel arfer, ni fyddid yn cyhoeddi llythyr oddi wrth rywun sy'n rhy llwfr i dorri'i enw wrtho, ond credwn y dylid cyhoeddi hwn, oherwydd

1. Gobeithiwn y bydd gweld ei eiriau mewn print yn lliniaru tipyn ar y nwydau a gorddwyd ynddo o dderbyn ein llythyr apel.

2. Er bod yna lythrau eraill sy'n mynegu barn dra gwahanol, mae'n ddiddorol gwybod beth mae o leiaf un o'n darllenwyr yn ei feddwl amdanom.

3. Mae'n sialens i bawb ohonom, ai y tu fewn i'r "cylch bychan crachaidd" ai'r tu allan iddo i wneud rhywbeth i helpu'r papur. Petai enw a chyfeiriad y llythyrwr gennym, byddem yn ei wahodd i ymuno â'r cylch, fel y gallai wneud un o'r cant a mil o orchwylion y mae'n rhaid eu gwneud yn barhaus, heb unrhyw dâl wrth gwrs, er mwyn cynhyrchu'r papur.

Bydd croeso iddo/iddi os caf wybod pwy ydyw, i'n cynorthwyo. Ac i bawb ohonoch chi sy'n darllen hyn, wrth gwrs. Mae eisiau pob math o ddefnydd arnom ar gyfer y papur. Felly:

## *Anfonwch eich defnyddiau!*

O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT. *Dyw hi byth yn rhy gynnar* a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella *ERBYN YR 8fed O BOB MIS*. **Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.**

Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-oed:

Shân Emlyn — 751469
Gwyn Lewis Davies — 756882
E. Gunston Jones — 499169
T. Raymond Edwards — 563588

Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.

**PARTI NADOLIG Y DINESYDD**
**NEUADD GOFFA LLANDAF**

NOS SADWRN, 22 RHAGFYR, 8.00p.m.

MYNEDIAD £2.

FFONIWCH at un o'r rhifau uchod.
CROESO! COFIWCH DDOD

# — Y CALENDR —

**TACHWEDD**

9 Cantorion Pontyclun: Cyngerdd, Neuadd Goffa Llandaf. 7.30. Elw at achos Cyfeillion Cymreig yr Anghenus.

10 EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD. Neuadd Goffa Rhiwbeina. 4.00p.m. Mynediad 50c. 20c. i blant dan 15 oed.

16 Clwb y Cymoedd: TWMPATH DAWNS gyda Dawnswyr Caerdydd. Boar's Head, Caerffili, 7.30p.m.

17 Plaid Cymru: FFAIR FAWR NADOLIG Neuadd y Ddinas, Caerdydd 2.00p.m.

22 Coleg Cyncoed: CYNGERDD, "NEWYDD A HEN", gan y Myfyrwyr, 8.00p.m. 50c i oedolion, 25c i blant.

24 Ysgol Glantaf: FFAIR NADOLIG Yn yr ysgol 2.00p.m.

24 Ysgol Rhydfelen: FFAIR GAEAF Yn yr ysgol 2.00p.m.

24 Capel y Tabernacl: BORE COFFI a STONDIN TEISENNAU Capeli Cymraeg Caerdydd. 10.00a.m. Elw at Gymorth Cristnogol.

29 DARLITH RHYDFELEN: Yr Athro Glanmor Williams 7.00p.m.

**RHAGFYR**

1 NOSON LAWEN WERINOL Cymdeithas Gymraeg Pentwyn, Llanedeyrn a'r Cylch. Canolfan Gymdeithasol Llanedeyrn. 8.00p.m. Bwyd, adloniant, bar. Tocynnau £1.50.

5 Cymdeithas Capel Heol y Crwys: HAWL I HOLI 7.30p.m.

7 Clwb y Cymoedd: PEINT A CHÂN gyda Harri Webb a Mabsant. Boar's Head, Caerffili, 7.00p.m.

10 Capel y Tabernacl: Darlith gan Robin Gwyndaf, 'GWENITH GWYN', Cynheilydd Traddodiad ei Dadau.

13 Côr Ysgol Gyfun Glantaf: NAW LLITH A CHAROL, Eglwys yr Holl Saint, Ystum Taf (Gogledd Llandaf), 7.15p.m.

14 Y MESEIA YNG NGHAERFFILI. Côr Ysgol Rhydfelen a Janet Price, Angela Rogers Davies, Kenneth Bowen, a Delme Bryn Jones.

Y MESEIA YM MERTHYR. Côr Ysgol Rhydfelen a Janet Price, Angela Rogers Davies, Wynford Evans, a Delme Bryn Jones.

15 Côr Ffilharmonig Caerdydd: CYNGERDD yn cynnwys Offeren yn C Beethoven, Te Deum Haydn, Carolau gan Vaughan Williams a Berlioz. Telynores: Siân Morgan Thomas. Neuadd Gyngerdd y Brifysgol, Heol Corbett 7.30p.m. £1.00.

22 PARTI NADOLIG Y DINESYDD Neuadd Goffa, Llandaf. 8.00p.m. Bwyd, gwin ac adloniant. Mynediad £2.00.

RHAGHYSBYSIAD Mehefin 28 1980 — Ffair Haf Ysgol Gyfun Glantaf.

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel 753695), gydag enwau, dyddiad ac amser, etc.

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.

# CROESO I 'DRIAWD Y COLEG': Cynhadledd y Gymdeithas

**O Drioedd Ynys Prydain ymlaen, bu tuedd ynom ni'r Cymry i restru pethau a phobl, arwyr a dihirod fesul tri. Y Tri ym Mhenyberth, y Tri Bob; tri chynnig i Gymro a'r Tri yn San Steffan; ac yn awr, arwyr diweddaraf Cymru, Mered, Ned a Pennar (fel y cyfeiriai Wayne Williams, Cadeirydd newydd Cymdeithas yr Iaith atynt mor frawdol yn y Cyfarfod Cyffredinol) a'r Tri Gwamal Teledaidd, Jennie, Harri a Tom.**

Fel y cyfaddefodd Meredydd Evans wrth annerch y cyfarfod ar ôl iddo ef a'i ddau gyd-weithredydd dderbyn croeso tywysogaidd i Neuadd Talybont, tipyn o syndod oedd hi iddo i'w gael ei hun yn aelod o Driawd y Coleg unwaith eto, ar ôl cymaint o amser. Aeth ymlaen i egluro y fath frwydr bersonol anodd fu hi iddo i oresgyn ei deimladau cryf yn erbyn difrodi eiddo a mynd ati, gyda Ned Thomas a Pennar Davies i ddiffodd trosglwyddydd Pencarreg yn Nyfed er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd a'r awdurdodau priodol at argyfwng darlledu Cymraeg, gweithred sydd yn sicr yn ysbrydoliaeth i lawer ohonom yn y dyddiau digon digalon hyn.

Ond yn wir, prif neges Cyfarfod Cyffredinol eleni oedd nad oes achos nac amser i ddigalonni, mai brad yw anobaith a chyngor ffŵl yw cyfaddawd. Daeth y Triawd anghymharus arall, Jennie Eirian Davies, Harri Pritchard-Jones a Tom Ellis AS o dan lach siaradwr ar ôl siaradwr am iddynt annog ymostwng i'r drefn sydd ohoni a derbyn cynlluniau darlledu arfaethedig y llywodraeth bresennol.

Fel y gellid disgwyl, tynged y Bedwaredd Sianel yng Nghymru oedd un o brif bynciau trafod y cyfarfod, gyda dau gynnig o dan sylw. Galwai'r naill am ddwyn cytundeb HTV (Wales & the West) i ben ym 1981 a sefydlu Cwmni Teledu Cenedlaethol yn ei le i wasanaethu anghenion Cymru yn unig; datgan gwrthwynebiad i gynlluniau presennol y llywodraeth a galw am Sianel Gymraeg i Gymru a wnai'r llall — gan fygwth atal unrhyw ddarlledu arall ar y bedwaredd sianel yng Nghymru yn y cyfamser drwy amharu ar unrhyw wasanaeth masnachol a gaiff ei sefydlu.

Siaradodd Gronw ab Islwyn yn huawdl iawn ar natur ddigyfnewid egwyddorion. "Os oedd yr egwyddor o Sianel Gymraeg yn iawn ddoe, fis yn ôl, flwyddyn yn ôl," meddai, "yna mae'n iawn heddiw, yfory a'r flwyddyn nesaf." Nid yw egwyddorion sylfaenol yn newid, dim ond am fod y gwynt yn chwythu o gyfeiriad croes am y tro. Rhybudd yn erbyn cyfaddawdu oedd gan Ned Thomas yntau: os cyfaddawdir yn awr ar fater y Sianel, lle bydd diwedd ar gyfaddawd? Yn ei farn ef, byddai Sianel Gymraeg yn droedle cadarn y gellid oddi yno wrthwynebu unrhyw ymdrechion gan unrhyw lywodraeth i gwtogi ar ddarlledu yn Gymraeg, i "ymyrryd â'n Sianel ni." Ond ble'r oedd dyn i sefyll — sut y gwyddai ble i ddechrau gwneud safiad — ar sail rhywbeth mor annelwig â nifer amhenodol o oriau wedi eu gwasgaru ar draws dwy sianel? O safbwynt yr iaith Gymraeg, meddai, dyma'r "llethr llithrig" y mae gwleidyddion mor hoff o sôn amdano.

Yn yr un ddadl, atgoffodd Ffred Ffransis y cyfarfod, er mor anobeithiol a digalon yr ymddengys y sefyllfa heddiw i rai, gymaint gwell yw hi arnom a chymaint a enillwyd oddi ar ddechrau'r Ymgyrch Ddarlledu ym 1970. Bryd hynny, ymddangosai Sianel Gymraeg yn nod gwbl amhosibl, hyd yn oed i'r rhan fwyaf o selogion y Gymdeithas ei hun. Pwy gredai bryd hynny y byddid wedi llwyddo o fewn degawd i sefydlu consensws clir yng Nghymru o blaid Sianel Gymraeg ac wedi dod mor agos at weld ei sefydlu? Galwodd Ffred ar i aelodau'r undebau o fewn y cyfryngau torfol i ymladd o blaid y Sianel, gan weithredu'n ddiwydiannol pe bai raid.

Uchafbwynt y cyfarfod oedd anerchiad y siaradwr gwadd, Phylip Rosser, Trefnydd Rhanbarthol y G. & M.W.U. a gyhoeddodd ei fod wedi croesi'r ffin a'i fod bellach yn siarad fel aelod cyflawn o Gymdeithas yr Iaith, nid dim ond siaradwr gwadd. (Cyhoeddwyd yn ystod y cyfarfod ei fod hefyd wedi ei ethol i Senedd y Gymdeithas, ac mai ef yw arweinydd Grŵp Undebau Llafur y Gymdeithas eleni.)

Rhybuddiodd fod mwy o angen y Gymdeithas ar Gymru nag erioed o'r blaen. Yn sgil 1979, blwyddyn drychinebus yn hanes Cymru, yr angen yn awr oedd gosod y Gymraeg yng nghanol gwleidyddiaeth Cymru, nid cyfaddawdu a digalonni. Soniodd mor gyflym yw pobl i fanteisio ar wendid a'r modd y mae lleisiau eisoes yn cryfhau yn erbyn yr iaith ar bob tu, o Went i Wynedd.

Byrdwn ei neges oedd fod yr hen radicaliaeth "Cymru Fydd" wedi marw eleni a bod brwydr yr iaith, yn wyneb effaith drychinebus llywodraeth Doriaidd ar Gymru, yr un â brwydr sosialwyr Cymru. Ond pwysleisiai fod yn rhaid wrth sosialaeth wedi ei wreiddio yn y genedl Gymreig, nid sosialaeth Brydeinig ei hanian, i gyfoethogi'r cydymdreiddiad y soniai J.R. Jones amdano — i uno â'r gwerthoedd o iaith, diwylliant, cymdogaeth a chenedl.

Byddai ef ei hun, fel unigolyn, yn cefnogi'r ymgyrch dros Sianel Gymraeg drwy wrthod talu am drwydded teledu. Ond rhaid oedd mynd ymhellach na hynny, a galw ar **bob** Cymro ymroddgar, y tu fewn neu'r tu allan i Gymdeithas yr Iaith, i ymuno â'r ymgyrch hon. Ofer i "Gymry Da" resynu dirywiad yr iaith mewn cymdeithas, meddai, a gwneud dim byd; rhaid i ni oll, y tu hwn, fod yn barod i sefyll gyda'n gilydd, i feddu ar yr ewyllys i wrthsefyll. Os nad oes gennym yr ewyllys i sefyll gyda'n gilydd yn awr, yna, nid oes gennym ni ddim.

Cafodd yr araith hon dderbyniad da, gyda'r rhan fwyaf o'r gynulleidfa ar eu traed yn cymeradwyo, er nad oedd pawb yn gwbl hapus â'r hyn a ddisgrifiodd un siaradwr diweddarach fel apêl ar ran y Blaid Lafur o lwyfan y Gymdeithas. Yn wir, clywid lleisiau'n beirniadu'r siaradwr fel rhywun sy'n dal i weithio o fewn fframwaith y Blaid Lafur Brydeinig, gan roi'r bai i gyd ar y Toriaid am gyflwr presennol Cymru heb sôn am gyfraniad y Blaid Lafur ar hyd y blynyddoedd — megis y rhan waradwyddus a chwaraeodd yn Ymgyrch y Refferendwm, er enghraifft.

Ond yn gyffredinol, yr oedd ei eiriau yn adlewyrchu teimlad y cyfarfod cyffredinol hwn eleni, sef penderfyniad i sefyll yn gadarn a gwrthod ymollwng i ddigalondid ac anobaith. Teimlid hefyd fod cefnogaeth weithredol Phil Rosser, fel aelod gweithgar iawn o'r mudiad Undebau Llafur yng Nghymru, i'w groesawu'n gynnes iawn fel cam tuag at uno'r ddwy ffrwd fwyaf grymus ym mywyd gwleidyddol Cymru, Sosialaeth a Chenedlaetholdeb, yn darian gref i'r iaith yn y cyfnod argyfyngus hwn yn ei hanes.

GOHEBYDD ARBENNIG


# Masnach a Diwydiant

## Am bolisi benthyca llawn

Commercial Bank of Wales Limited

BANC MASNACHOL CYMRU

Cangen Gogledd Cymru · 31 High Street Wrecsam [illegible]
Ffôn 0978 51082
Prif Swyddfa · 114-116 Heol Eglwys Fair Caerdydd [illegible]
Ffôn 0222 396131

# HYWEL A — "HA!HA!HA!"

**Ychydig iawn o seddau gweigion oedd yn theatr fawr y Sherman, nos Sul, Hydref 21, achos roedd llu o bobol wedi clywed am gomedi newydd Huw Roberts, am ei llwyddiant yn Eisteddfod ac am ei gweld.**

Mae'n anodd gwybod faint a aeth yno ar ôl clywed John Ogwen yn siarad yn rhaglen Hywel Gwynfryn rai oriau cyn hynny. Cwyno oedd John nad oedd Y Sherman yn estyn y croeso a ddylai i Gwmni Theatr Cymru. Dywedai fod y gomedi ffres hon yn haeddu mwy nag un perfformiad yn y ddinas ond oherwydd diffyg diddordeb rheolwr y theatr methwyd â chael mwy na'r Sul ar gyfer y perfformiad. Rhaid derbyn yn syth fod gan nifer o bobl farn yn erbyn mynd i'r theatr ar y Sul — felly, mae'n dilyn fod nifer ohonom wedi colli gwledd oherwydd daliadau digon teg.

Cwynai Mr Ogwen hefyd oherwydd diffyg cyhoeddusrwydd ar ran Y Sherman i'r ŵyl, a chymharodd y nifer y posteri a welodd yn hysbysebu'r dramâu a welodd (un, yn siop Y Triban) i'r llu mawr a welodd yn hysbysebu'r *Ballet Rambert*.

Wel, beth am y perfformiad ei hun? Sut y mae mesur ei lwyddiant?

Bu'r gynulleidfa fawr yn chwerthin o'r dechrau i'r diwedd ar ben y cyfan. Mae'n anodd dweud paham yr oedden nhw'n chwerthin achos mae'n amhosibl crynhoi stori denau unrhyw ffars a gwneud chwarae teg â hi ar yr un pryd. Digon yw dweud fod yn y cynhyrchiad hwn holl elfennau ffars — pum drws a'r rheiny'n arllwys cymeriadau i mewn ac allan yn gelfydd-reolaidd; pob un yn camddeall rhywun neu'i gilydd byth a hefyd, gwisgo a dadwisgo, cyhuddo a gwadu, yng ngŵydd cynulleidfa ac o'r golwg — a'r cyfan yn gorffen yn deidi a phob cwlwm yn cael ei glymu.

Mewn sylwadau fel y rhain, a fydd yn ymddangos wedi i'r cynhyrchiad droi'n hanes, afraid enwi'r un cymeriad. Roedd ambell un wedi dysgu'r grefft o actio ffars yn well na'i gilydd, ac ambell un hefyd yn well actiwr na'i gilydd. Gyrrai'r cyfan ar dempo hwyliog ymron bob tro. Ar adegau, roedd pethau'n arafu — a byddai ambell olygfa wedi cyrraedd i dir uwch pe bai'r actorion wedi goractio ryw ychydig, yn unig er mwyn cadw'r elfen o ffars. Ond pwy wyf fi i ddweud hyn, gyda'r gynulleidfa wedi mynd adre wrth ei bodd, ac yn gobeithio y caiff arlwy debyg yn fuan.

Rhaid dweud gair am y gwaith technegol a'r set a oedd i fyny i bob gofyn. Mae'n bleser gallu mwynhau edrych ar set dda cyn i neb agor ei enau — ond mae'n bleser mwy synhwyro fod criw o actorion yn mwynhau actio i theatr lawn. Trist meddwl y bydd rhaid i ni aros am sbel cyn gweld cynhyrchiad arall gan y cwmni hwn yng Nghaerdydd, a dwy 'i ddim yn sôn am y pantomeim sy'n mynd â ni i fyd gwahanol.

Yn ôl y rhaglen, y cynhyrchiad nesaf a welwn fydd Excelsior gan Saunders Lewis.

# Dysgwyr yn y Ganolfan

**Mae llawer o frwdfrydedd unwaith eto ymhlith Dysgwyr Cymraeg y Ganolfan. Mae Wlpan o 14 o bobl yn cyfarfod bum noson yr wythnos am ddeuddeg wythnos y tymor yma ac eisoes maen nhw wedi gorffen chwe wythnos o'r cwrs presennol!**

Yr athrawon ydy Meirlys a Heulwen Davies, Gwilym Roberts, Gwyneth Phillips, Dic James, Alun Treharne, Iolo Walters, Cen a Marilyn Cên. Mae'r rhain i gyd yn rhoi eu gwasanaeth yn wirfoddol. Yna, mae dosbarthiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn a Chlwb Cymraeg i Ddysgwyr sy fwy neu lai yn rhugl.

Mae'r Clwb yn cyfarfod bob nos Fercher o 7-8.45 ac mae croeso i unrhyw ddysgwr mwy neu lai yn rhugl i ymuno â'r clwb. Eisoes, mae nifer o siaradwyr wedi bod yn annerch y dysgwyr hyn, sef Siân Emlyn, Benni Harries, Delyth Evans, John Albert Evans. Unwaith eto, mae'r athrawon, sef Paul Frawen, Bernard Evans, Linda Moran, Martin Cook, Dafydd Prys ac Elen Rhys yn rhoi o'u gwasanaeth yn gwbl wirfoddol.

Mae'r arian a godir ar y dysgwyr yn mynd i gynorthwyo gwahanol achosion megis Canolfan yr Urdd, Y Dinesydd, Ysgolion Meithrin Cymraeg, Yr Urdd, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cronfa Nant Gwrtheyrn ac ati.

# O'R POST

At y DINESYDD:

Cefais fy synnu'n fawr pan dderbyniais eich llythyr yn apelio am arian ar ran Y DINESYDD, gan fy ngalw yn 'un o garedigion y bywyd Cymraeg ym mro Caerdydd'. Yr wyf, yn sicr, yn un o'r bobl y cyfeiriwch atynt, ond methaf yn lân a deall sut y gallwch gysoni'r DINESYDD â hyn. Mae'n amlwg i mi mai rhyw ddifyrrwch plentynaidd cyfyngedig i bobl ddetholedig yw'r sothach yr ydych yn ei droi allan fis ar ôl mis, a gwae unrhyw un sydd y tu allan i'ch cylch bychan crachaidd, neu sydd heb fod yn fab neu ferch i hwn a hwn.

Yr ydych yn gwneud mwy o ddrwg i'r iaith Gymraeg a'r bywyd Cymreig yn y ddinas yma drwy eich agwedd ddewisedig nag y gallai unrhyw blaid boliticaidd gyflawni mewn canrif, ac y mae anfon allan am arian oddiwrth bobl yr ydych yn eu hanwybyddu'n llwyr ar bob amser arall, yn sarhad ar eu deallusrwydd.

Cariwch ymlaen i addoli'ch gilydd, a thalwch amdano eich hunain.

***(gweler. Golygyddol, tud 2, ac Archeb Banc tud 8)***

MAI YN Y DDINAS

**Nid diffaith mo'r dre pan weithia'r garddwr**
**Gerddor drwy'i sybwrbia**
**A rhoi holl harmoni'r ha'**
**Yn nhawelwch magnolia.**

**Arfonn ap Gwilym**

**I ymddangos ar 25 Hydref!**
**Pedwar llyfr cyntaf**

# Cyfres y Fodrwy




**AR GAEL O'CH SIOP LYFRAU LEOL**
**pris 50c yr un**

# FFERM DINAS CAERDYDD

**Ar brynhawn braf ddiwedd mis Medi, cafodd trigolion Caerdydd eu cyfle cyntaf i ymweld â chynllun newydd, eang ei bosibiliadau sydd ar y gweill yn ne-orllewin Caerdydd, sef Fferm Dinas Caerdydd. I'r neb na chlywodd sôn am y fath beth â Fferm Ddinas o'r blaen, gwell fyddai gair cyffredinol neu ddau o eglurhad cyn sôn am Gaerdydd yn benodol.**

### Dod â'r Wlad i'r dref

Prif amcan Fferm Ddinas yw gwneud defnydd adeiladol o hen dir gwastraff drwy arddio, tyfu bwyd a magu anifeiliaid. Heb sôn am yr hyn a gynhyrchir felly, ar dir a fyddai'n segur fel arall, gall cynllun o'r fath fod o fudd mawr i'r holl gymuned leol drwy ddarparu cyfleusterau addysg, adloniant ac amser hamdden i blant ac oedolion mewn amgylchedd wledig.

At hynny, gellir creu cynllun o'r fath am y nesaf peth i ddim o gost ar y trethdalwr: y mae costau cyfalaf Fferm Ddinas yn isel dros ben gan mai cymryd lês ar dir segur a wneir; gellir adeiladu'r rhan fwyaf o'r adeiladau digon amrwd y bydd eu hangen naill ai o hen ddarnau o bren neu drwy adnewyddu hen adeiladau dadfeiliedig ar y safle. Isel yw'r costau rhedeg hefyd, gydag incwm yn dod oddi wrth ddefnyddwyr y Fferm, a chymorth i'w gael gan gyrff â chydymdeimlad â'r fath syniad, cwmniau lleol, ffermwyr, arbenigwyr a chynorthwyr gwirfoddol a fydd yn cyfrannu naill ai ddefnyddiau neu eu llafur a'u profiad yn rhad ac am ddim.

### Fferm Caerdydd

Erbyn hyn, mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi rhoi caniatad cynllunio a lès ar safle bedair erw ar Gomin Lecwydd, gyferbyn â Pharc Ninian (ceir mynediad i'r safle o Heol Sloper). Pan fydd y cynllun wedi ei gwblhau, bydd yn cynnwys 'Ffermdy' — sef canolfan weinyddol a phrif fan cyfarfod y fferm, gyda chyfleusterau addysgiadol ar gyfer ysgolion a chlybiau; gardd Gymuned lle gall aelodau'r Fferm, pensiynwyr a phlant ysgol lleol dyfu blodau a llysiau; gerddi eraill lle gall teuluoedd lleol dyfu bwyd i gyflenwi cynnyrch eu gerddi eu hunain. Bydd cytiau ar gyfer creaduriaid megis ieir, geifr, cwningod, hwyaid a gwyddau, asyn a'r defaid, y perchyll a'r lloi a fenthycir yn eu tymor. Cefnogir pobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o edrych ar ôl y rhain. Bydd llynnoedd pysgod lle gellir astudio bywyd naturiol dŵr llyn, a magu adar gwyllt a physgod, a safle picnic a gardd â lawntiau a meinciau y gall pensiynwyr ac eraill eu mwynhau yn ystod misoedd yr haf.

### Posibiliadau eraill

Dim ond rhai syniadau yw'r rhain: er enghraifft, mae *City Farm 1* (y fferm gyntaf o'i bath a sefydlwyd yn Kentish Town, Llundain ym 1972) bellach wedi tyfu i gynnwys 58 o anifeiliaid fferm ac adeiladau ar eu cyfer, stablau ag 11 o geffylau, ysgol farchogaeth o dan do, clwb merlod, gerddi cymunedol i'r henoed, tai gwydr, 20 o erddi at dyfu bwyd, gweithdy trwsio ceir ac offer, bwyty ac ystafell gyfarfod/ymarfer.

### Gwerddon Lewyrchus

Gellwch weld felly pam yr oedd crwydro ar hyd y safle anniben rhwng sylfeini'r cytiau pren, rhwng y gerddi bach gobeithiol a amlinellwyd â darnau o linyn, ar hyd y llwybrau drwy'r drain a'r drysi yn brofiad cyffrous. Deuparth gwaith ei ddechrau, ac er nad oes llawer i'w weld ar y safle eto, mae gwaith anferth wedi ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r problemau gweinyddol a chyfreithiol olaf wedi eu datrys erbyn hyn. Yn y byd sydd ohoni, a'i wastraff ynni ac adnoddau cynyddol, a'r miloedd o filltiroedd sgwâr o dir ffrwythlon sy'n diflannu o dan goncrid bob blwyddyn gan ei gwneud hi'n llai a llai posib i'r rhan fwyaf o bobl allu tyfu ambell lysieuyn i'w fwyta heb sôn am fod yn hunan-gynhaliol, y mae'r cytir llychlyd hwn yn arwydd o obaith a all, yn y dyfodol agos, drawsnewid y darn bychan hwn o dir gwastraff llawn sbwriel yn werddon lewyrchus yng nghanol un o faestrefi concrid llwyd Caerdydd.

Os oes gennych ddiddordeb pellach yng ngweithgareddau'r Fferm, os carech helpu â'r gwaith neu gyfrannu defnyddiau, cysylltwch â Ken Shaw (Caerdydd 395369) neu Pete Williams (Caerdydd 374288) os gwelwch yn dda.

# DIWRNODAU MAWR YN RHYDFELEN

Ar nosau Hydref 12 ac 13, bu disgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen yn perfformio "Diwrnod Mawr ym Merthyr" gan Emyr Edwards ac Ann Hopcyn, sef hanes y diwrnod hanesyddol, ym 1804 pan dynnwyd llwyth o haearn gan injan ager Richard Trevithick ym Merthyr Tudful, y tro cyntaf i injan ager gael mynd bellter ffordd ar gledrau.

Ar y nos Sadwrn y gwelodd gohebydd *Y Dinesydd* y perfformiad — dod i'r neuadd a'i chael yn orlawn o gyfeillion a rhieni, ac fel pob un a oedd yno, cael ei gyfareddu ymron yn syth gan ddiddordeb heintus y plant. Roedd ôl cynllunio manwl gan dim ysbrydoledig ar y gwaith yma — ac roedd yn amlwg eu bod yn gwybod beth yw addysg yn ein dyddiau ni. Braidd yn draethodol oedd y sgript, ond nid ar chwarae bach y mae dwyn i mewn elfennau theatr i rywbeth sy yn ei hanfod yn "wers hanes". Fe'i hachubwyd, er hynny, gan fwsig cyffrous Ann Hopcyn, un o gynddisgyblion yr ysgol a hefyd gan y defnydd a wnaed o bob cyfarpar gweledol a chlywedol posibl. Pob plentyn yn ei grys Trevithick, injan go iawn (ymron!) yn cael ei hadeiladu o flaen ein llygaid (ymron!), tryloywderau (sleids) yn ein tywys o bennod i bennod, a chanu a dawnsio wedi'u brodio i mewn i'r cyfan — a'r plant, fel y mae plant bob amser, yn rhoi anadl ym mhopeth. Gall John Owen, y cynhyrchydd a'i dim fod yn falch o'r cynhyrchiad hwn. Gresyn na ellid bod wedi cynnig yr arlwy i gynulleidfa ehangach.

## ATHRAWES NEWYDD YN Y TYLLGOED

Roedd hi'n ardderchog clywed bod Mrs T.J. Davies, Eirlys, yn dysgu yn yr Ysgol Feithrin yn Tyllgoed. Fe fydd hi a Mrs Marilyn Caine yn gwneud tim ardderchog wrth ymwneud â'r plant bach dan eu gofal. Byddent wrth eu bodd i weld rhifau'r ysgol yn cynyddu.


**PWY FASE'N MEDDWL**

Mae'r rhaglen ddyfalu boblogaidd hon yn ôl ar eich sgrîn, a hynny am 5.30 bob nos Sadwrn.

Cyflwynir y cystadleuwyr a'r panel gan David Meredith.

Ar wahân i ddyfalu cyfrinachau'r cystadleuwyr, mae'n rhaid i'r panel hefyd geisio darganfod enw gŵr neu wraig adnabyddus wedi gwisgo mewn dillad go anghyfarwydd!

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd

# WRTH Y TÂN

# NODIADAU AR LYFRAU NEWYDD

Am ei maint, mae'n siwr mai Cymru yw un o'r gwledydd a gofnodwyd orau mewn print yn y byd i gyd, gydag amryfal awduron wedi gwneud arolwg manwl o rannau helaeth ohoni, "filltir sgwâr" fesul "milltir sgwâr". Yn awr, wele TJ Davies yn ***Pencawna*** yn mynd â'r grefft hon i binaclau newydd ac yn rhoi disgrifiad o'i filltir sgwâr ef i ni fesul cae, gan nodi pob twmpath a thomen, aderyn ac ymlusgiad, blodeuyn a choeden bron — ac, wrth gwrs, yr atgofion sydd ganddo ef ynghlwm wrth bob cae.

O'r caeau i'r Maes — a'r ail gyfrol yn y gyfres ***Eisteddfota***, hon o dan olygddiaeth Gwynn ap Gwilym. Casgliad o ysgrifau amrywiol am yr Eisteddfod yw hwn, yn cynnwys dwy sy'n disgrifio profiadau eisteddfodol cwbl ddieithr i'r mwyafrif helaeth o eisteddfodwyr. Cawn Myrddin ap Dafydd yn disgrifio, drwy lygaid labrwr o Wyddel dychmygol, y profiad o weithio ar y Maes yn y misoedd o baratoi ar gyfer yr Wyl mewn ysgrif ddifyr iawn yn llawn straeon digri, troeon trwstan a sôn am gymeriadau na wêl y rhelyw ohonom ddim ohonynt ond ôl eu llaw: y Pafiliwn yn sefyll yn ei holl ogoniant ar fore cynta'r 'Steddfod. Profiad eisteddfodol mwy dieithr byth ond i ddyrnaid o etholedig rai yn hwnnw a ddisgrifir yn ffraeth iawn yn ***Cadw'r Gyfrinach*** gan Eluned Phillips, bardd y Goron yn Eisteddfod y Bala — oes angen dweud mwy? Pennod arall ddiddorol yw honno gan Islwyn Ffowc Elis yn olrhain hynt a helynt y nofel yng nghystadleuthau'r Eisteddfod Genedlaethol, gan orffen gydag apêl am roi lle mwy teilwng i'r nofelydd yn seremoniau'r Wŷl, a thrwy hynny godi rhyw ychydig ar statws y Nofel. Cyfrol ddigon derbyniol; trueni bod y rhwymiad (clawr-papur) mor wael nes i'n copi gwympo'n ddarnau yn fy nwylo o'i agor am y tro cyntaf.

Ffantasi am dri chenedlaetholwr ifanc, myfyrwyr yng Ngholeg Abertawe, sydd ar ffo ar ôl iddynt fomio awyren y Prif Weinidog yw ***O Grafanc y Gyfraith*** gan Emyr Hywel. Eir â ni ar daith gerdded o Langurig i'r Cei Newydd (a phwy gredai y gallai cymaint ddigwydd mewn prin ddeugain milltir o daith), ac oddi yno i'r Iwerddon — mewn cwch rhwyfo! Gwr o'r enw Gruffydd Ifan sy'n arwain yr herwyr, meudwy cyfoethog a chyn-genedlaetholwr sy'n meddwl ei fod yn marw o ganer. Yn wir, 'does dim siâp llawer gwell ar y tri myfyriwr (andros o hysbyseb wael i Goleg Abertawe), gydag un bron â marw o'r ffliw cyn dechrau, un arall yn marw ar y ffordd (o drawiad ar y galon) a'r trydydd yn troi'n seicopath maleisus cyn diwedd y daith. Llwydda'r mordeithwyr glew i gyrraedd Iwerddon ar ôl rhwyfo am ddau ddiwrnod a dwy noson heb damaid i'w fwyta, ac yn... ond gwell peidio â datgelu rhagor ar hynny o stori sydd i'r nofel. Y mae'r cymeriadau prennaidd yn dibynnu llawer gormod ar ysgrifbin awdur hollwybodus i ddatgelu'r hyn sydd yn mynd ymlaen yn eu meddyliau cythryblus — ac y mae'r holl sefyllfa'n straen ofnadwy ar hygrededd dyn.

Tipyn gwell yw nofel (neu hanner gyntaf nofel, yn ôl y broliant) JO Jones ***Capten Pererin*** sef hanes bachgen ifanc o gylch Porthmadog yn mynd i'r môr yn y dyddiau pan oedd Porthmadog yn borthladd allforio llechi pwysig, a llongau hwylio'n mynd oddi yno i bedwar ban y byd. Y mae hon yn stori syml sydd eto'n afaelgar, ac mae'n rhoi darlun byw iawn o galedi a rhamant bywyd ar y llongau hwyliau mawr. Y mae'r cefndir hanesyddol a morol yn ardderchog, gyda manylder gwybodaeth yr awdur yn syfrdanu dyn, heb iddo dorri ar draws rhediad y stori am eiliad: dysgwn ynglŷn â'r gwahanol fathau o longau wrth i Gruffydd ei hun dderbyn ei hyfforddiant, a phrofwn wefr ac awyrgylch porthladdoedd mor wahanol â Locmariaquer yn Llydaw, Llundain ac Abertawe gynt, a Lima ym Mheriw drwy lygaid, ffroenau a chlustiau'r bachgen ei hun.

Unwaith eto, wele'r nofel hanesyddol yn tra rhagori ar ymgais i ysgrifennu nofel â chefndir cyfoes, pwynt a danlinellir gan John Rowlands yn ei bennod gynhwysfawr ar Lenyddiaeth Gymraeg yn ***Y Celfyddydau yng Nghymru 1950-1975*** (cyhoeddiad Cyngor Celfyddydau Cymru). Yn ei farn ef, ni all Cymry gynhyrchu nofelau gafaelgar, realistig ac argyhoeddiadol am Gymru heddiw am fod y "gôr drewllyd sy'n llifo o friw y Gymru gyfoes yn ormod i lawer ei stumogi." Ai dyna'n tynged felly — i fethu â wynebu'n presennol ond drwy wneud ffantasi ohono, a chadw ein hymdrechion gorau ar gyfer Cymru a aeth heibio, Cymru a oedd yn undod, yn endid, yn genedl — ac felly'n haws ysgrifennu amdani?

Un pwynt bach terfynol am y ddwy nofel uchod. Nofelau clawr-papur eithriadol o fyr ydynt (dim ond rhyw 80 tudalen o hyd, gwerth rhyw awr o ddarllen) ac eto, codir pris o £1.75 yr un amdanynt. Gŵyr pawb fod costau argraffu, pris papur ac ati wedi cynyddu'n drybeilig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ymddengys hyn braidd yn afresymol, yn enwedig o'i gymharu â'r gyfrol olaf a ddaeth i'm sylw.

Oherwydd un o'r llyfrau mwyaf boddhaol (ar bob ystyr) a ddaeth i law dros yr haf oedd trydydd (ie, y trydydd mewn dwy flynedd) argraffiad Gwasg Gwynedd o'r gyfrol ardderchog ar fywyd Bob Owen, Croesor. Dyma gyfrol sylweddol (254t), hynod ddeniadol ei chynhyrchiad, gydag argraffwaith glân, crefftus, wedi ei rhwymo mewn cloriau caled, sgleiniog — am ddim ond £3.00. Ai'r ffaith y derbyniodd y cyhoeddwyr gymorth Cymdeithas Bob Owen i gynhyrchu'r adargraffiad hwn yw'r unig ffactor i egluro'r fath gyferbyniad syfrdanol — ynteu a oes yna wahaniaeth sylfaenol yn athroniaeth a pholisi prisio llyfrau cwmni Christopher Davies ac eiddo Gwasg Gwynedd?

***Pencawna*** TJ Davies £2.25; ***Eisteddfota 2***, gol. Gwynn ap Gwilym £2.50; ***O Grafanc y Gyfraith*** Emyr Hywel £1.75; ***Capten Pererin*** JO Jones £1.75 (cyhoeddwyd gan Christopher Davies (Cyhoeddwyr) Cyf.)

***Bywyd Bob Owen*** Bob Owen Gwasg Gwynedd £3.00

## EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT

**Cynhelir yr Eisteddfod hon ar nos Fercher y 26ain o Fawrth 1980 yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf o'i bath yng Nghaerdydd y llynedd a bu'n gymaint o lwyddiant fel bod Pwyllgor Dysgwyr Cymraeg Caerdydd wedi penderfynu mentro ar drefnu Eisteddfod arall eleni. Am ragor o fanylion ac am raglen y testunau cysylltwch â Huw Powell, 18 Bishop's Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: Caerdydd 60823).**

## LLONGYFARCHIADAU

I Rhiannwen James, Rhydymain, Dolgellau (a Chaerdydd ers dros flwyddyn bellach!).

Rai misoedd yn ôl, cafodd Rhiannwen ei hapwyntio'n ysgrifenyddes bersonol i Mr Eisteddfod, Mr Emyr Jenkins — ond nawr mae hi'n dechrau tyfu'n Miss Eisteddfod achos mae wedi dringo'r ysgol i fod yn ddirprwy drefnydd yr Eisteddfod yn y gogledd. Mae wedi dechrau ar ei gwaith erbyn hyn, a'i gorchwyl gyntaf fydd helpu i lywio Eisteddfod Machynlleth i dir. Er y bydd yn flin gennym ei cholli o Gaerdydd, dymunwn bob lwc iddi yn ei swydd newydd.

* * *

I David Dyer, Benedict Crescent a oedd mewn swydd ymgynghorol gyda'r byd amaethyddol gyda'i swyddfa yn Y Drenewydd. Ei waith yn y swydd hon oedd cynghori'r ffermwyr ar sut i godi mwy o gynnyrch a chynnyrch gwell. Mae'r swydd newydd rywbeth yn debyg. Ond nawr mae'n symud i fod yn Ddirprwy Swyddog Undeb gydag Undeb Y Ffermwyr (NFU) ym Morgannwg Ganol — ac yn awr, ymladd am iawnderau i'r ffermwr a fydd. Pob lwc iddo.

* * *

I Siân Dyer, Benedict Crescent, ar gael ei phenodi'n athrawes Cymraeg a Drama yn Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais. Mae gan Siân ddiddordeb mawr yn y ddrama — roedd yn aelod o Gwmni Drama Coleg Addysg Caerfyrddin a fu'n perfformio yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Yn awr, mae wedi mynd i ardal sydd â thraddodiad hir o ddrama — cyfle i'w chreffi flodeuo. Pob lwc iddi.

# "OS BYDD FARW'R GYMRAEG..."

**Yn Arena'r Sherman, nos Fawrth, Hydref 16, cafwyd darlith ar Emrys ap Iwan gan Enid Morgan, Y Trawscoed, ger Aberystwyth. Rhan anhepgorol oedd y ddarlith o weithgareddau Gŵyl Theatr Cymru — ffordd o osod cefndir bywyd Emrys ap Iwan i'r rhai a fynnai fynd i weld drama W.S. Jones (Wil Sam) ar y nosau dilynol. Emrys ap Iwan oedd pwnc traethawd MA Mrs Morgan, ac roedd yn amlwg ei bod yn hen gyfarwydd â'r maes. Cafwyd darlun clir a chryno ganddi o uchelfannau bywyd y gŵr hwn a wnaeth gymaint dros yr iaith.**

**Fe'i cyflwynwyd ar ran Cyfeillion y Theatr Gymraeg yng Nghaerdydd gan W.J. Jones a diolchwyd iddi gan Mrs Elinor Wyn.**

Emrys ap Iwan biau teitl y llith hon, achos un tro fe ddywedodd, "Os bydd farw'r Gymraeg, bydd farw yn nhŷ ei chyfeillion." Gan gofio hyn, mae'n eironig meddwl i Gwmni Theatr Cymru, yn ôl a ddywedwyd wrthyf gan y pennaeth, Mr Wilbert Lloyd Roberts, gael cryn drafferth i gael Y Sherman eleni er gwaethaf cytundeb. Yr oedd wedi gobeithio cael y ddarlith nos Lun, yna ychydig nosweithiau o Emrys ap Iwan ac ychydig nosweithiau o Hywel A yn y theatr fawr. Ond roedd y Rheolwr yn awyddus i gael y *Ballet Rambert* yn y theatr fawr a dyna ben arni. Yn ei darlith soniai Mrs Morgan am Emrys ap Iwan byth a hefyd yn ymladd yn erbyn yr Inglish Côs (Yr ymgyrch Fethodistaidd yn y ganrif ddiwethaf i godi achosion Seisnig yng Nghymru). Gallaf ddweud, â nhafod yn fy moch fod yr Inglish Côs yn dal yn broblem iddo!


# EMRYS AP IWAN

**Ar Fercher, Iau, Gwener a Sadwrn, o Hydref 17 ymlaen, perfformiwyd drama W.S. Jones, Emrys ap Iwan yn Theatr yr Arena, Y Sherman.**

**Anfonodd *Y Dinesydd* ei gynrychiolydd yno ar y nos Fercher, a wyddon ni ddim sut gynulleidfaoedd a gafwyd o hynny ymlaen, ond digon tenau oedd hi pan oedd ef yno — prin saith deg. Clywodd *Y Dinesydd* fod ym mwriad Cwmni Theatr Cymru gynnal y ddrama hon yn y brif theatr ond i reolwr Y Sherman fynnu cael trefn arall. Ar y naill law, mae dyn yn teimlo dicter oherwydd fod perfformiadau Cymraeg yn cael eu gwthio i'r corneli fel hyn, ond ar y llw arall, ar rwy'n ysgrifennu'r nodiadau hyn cyn nos Sul, Hydref 21, pan obeithiaf gael tocyn i fynd i weld Hywel A, rhaid dweud y gallai Rheolwr Y Sherman ofyn i unrhyw un a ddeuai i bledio achos y Gymraeg yn ei theatr ddod gydag ef i gyfri'r pennau yn Yr Arena ar y nos Fercher.**

**Bid a fo am hynny, cafwyd perfformiad graenus gan y cwmni. Thema'r ddrama oedd "profi" Emrys ap Iwan o flaen y Gymdeithasfa yn Llanidloes pan ddymunai gael ei ordeinio fel gweinidog. Roedd rhaid cael sesiwn i osod y darlun ac aed â ni yn yr act gyntaf i gyfarfod o'r Gymdeithasfa yn Nolgellau — cyfarfod siarad, ac roedd ail a thrydydd ddweud yr act gyntaf yn llafurus, braidd. Ond twymodd pethau yun y ddwy act olaf a chafwyd uchafbwynt gwir effeithiol gyda'r gynulleidfa'n cael ei thynnu i mewn yn gelfydd i ysbryd i chwarae. Perfformiad a blesiai.**

Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?



**MYND A DOD STAFF ER 1 MEDI 1878**

**YMADAWODD**

Wynne Melville Jones (Pennaeth Adran Cyhoedd
Drefnydd Gŵyl gyda Bwrdd Datblygu Cymru
Dafydd G. L. Owen (Swyddog Hyfforddi, Datblyg

*O'r Adroddiad Blynyddol, "Yr Urdd 78-79".*





# Ffenestr-siop
# Y SIOP I CHI...

Pan fyddwch chi'n ystyried gwelliannau i'r cartref, ac yn wynebu'r broblem o gael ffenestr neu ddrws.

Beth am... ddod i ymweld â'r arbenigwyr yng Nghanolfan Ffenestri De Cymru a gweld bron 100 mlynedd o brofiad o wneuthur ffenestri ar waith?

...weld y detholiad ehangaf posib o ffenestri a drysau patio o ansawdd dda, a'u gweld yn cael eu gwneud yn y fan a'r lle?

...weld sut y gellir arbed ar filiau gwresogi drwy dorri i lawr ar y gwres a gollir a chynyddu gwerth eich tŷ ar yr un pryd?

...dderbyn cyngor ar osod cyfarpar i mewn eich hunan — gellwch arbed 50% arall felly.

...edrych ar ein telerau hûr-bwrcas?

**Yn yr amserau caled hyn, synhwyrol yw edrych CYN prynu.**

# CANOLFAN FFENESTRI DE CYMRU

Heol Curran, Caerdydd. tel. 388555
Llun-Gwen 9a.m. hyd 5p.m.,
Sad 9a.m. hyd hanner dydd.
Croeso mawr i'r Cyhoedd a'r Fasnach.

JONWINDOWS

(Aelod o Grŵp John Williams o Gaerdydd Cyf.)

# Newyddion O'r Ysbyty

Diwedd yr haf daeth y newyddion trist bod tri o weithwyr selocaf ardal y Dinesydd wedi bod yn yr ysbyty.

Cafodd Mr Penri Treharne, Pennaeth Adran y Gymraeg yn Ysgol Gyfun y Barri a chyn-ysgrifennydd UCAC drawiad ar ei galon a bu'n dost iawn yn ysbyty Llandoch. Mae'n cryfhau a da iawn clywed hynny.

Yr un fu stori Mrs Lily Richards, ond mae bellach wedi gadael Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili ac yn yr Ysgol. Anodd iawn yw meddwl am ddau mor allweddol â'r rhain yn gorfod aros mewn ysbyty.

Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Richards ar ei hymddeoliad. Mae cenedlaethau o blant mewn dyled iddi. Bu'n ysbrydoliaeth yn y byd cerddorol, a rhoddodd o'i phersonoliaeth Gristnogol gyfan. Bydd Cymru'n dal i alw arni; ni chaiff lonydd mae'n siwr hyd yn oed ar ei hymddeoliad.

Diwrnod fu Mr Moelwyn Preece yn Ysbyty'r Mynydd Bychan ond mae'n debyg i'r doctoriaid roi triniaeth arbennig o dda iddo, cystal fel nad oedd rhaid iddo'r tro hwn dderbyn cyngor ei weinidog i ddarllen Eseiah 38. Brysied ei lwyr wellhad yntau.


**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL

CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**

**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL


ARCHEB BANC

AT Y RHEOLWR ...................................... (Enw'r Banc)
...................................... (Cyfeiriad y Banc)
......................................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru Caerdydd, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd (Rhif Cenedlaethol 30-12-50) i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ..................(enw'r mis) bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb hon gennyf mewn ysgrifen y swm o .............. (mewn geiriau) £..............(mewn ffigurau).

(ARWYDDWYD) ......................................

(CYFEIRIAD) ......................................

......................................

Rhif ac enw'r Cyfrif ......................................

......................................

Dyddiad ......................

PWYSIG: Ar ôl cwblhau'r archeb banc uchod a fyddwch gystal â'i hanfon at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, Caerdydd. CF2 6UN, yn hytrach na'i hanfon at eich Banc. Bydd y Trysorydd yn gallu nodi, felly, fanylion pob Archeb.

# COLOFN Shân Emlyn

**Mis pleserus iawn fu'r mis diwetha 'ma i mi. Cefais gyfle i ymweld â'r Alban am y tro cynta a chyfuno ymweliad â'r Mod yr un pryd. Eisteddfod Genedlaethol yr Albanwyr yw'r Mod, ac am y tro cynta yn ei hanes fe'i cynhaliwyd yn Stornoway ar Ynys Lewis — neu yr Ynys Hir fel y'i gelwir ar lafar.**

Ychydig iawn o'r tir mawr a welais gan ei bod wedi nosi ymhell cyn i Owen a minnau gyrraedd ffin yr Alban. Cawsom gip ar Glasgow yn y tywyllwch ac aros noson yno. Yna hedfan ben bora i Stornoway a chael croeso brwd gan ddau Albanwr sgertiog yn y maes awyr. Tywyswyd ni'n syth i neuadd gymharol fechan i wrando ar gystadleuaeth Alaw Werin. Mwynheais y canu'n fawr ond roeddwn yn siomedig bod yr Arweinydd yn siarad llawer mwy o Saesneg nag o Gaeleg. Diddorol oedd deall bod yn rhaid i bob cystadleydd basio prawf yn yr iaith Gaeleg cyn y caniateir iddynt gystadlu. Mae dau feirniad i bob cystadleuaeth, un i feirniadu'r ochor gerddorol, a'r llall i feirniadu safon a chywirdeb y Gaeleg.

Gŵyl fechan iawn yw hi o'i chymharu a'n heisteddfod ni, a thrist oedd sylweddoli mai dim ond dau y cant o boblogaeth yr Alban sy'n siarad yr iaith. Eto d'allwn i ddim peidio â bod yn ymwybodol o'r teimlad o falchder cenedl sydd gan yr Albanwyr, ac am ryw reswm maent yn ymddangos yn llawer mwy hyderus na ni.

Cawsom gyfle i ymweld â gorsaf Radio Gaeleg newydd sbon a thim bychan o bobol ifanc brwd yn arbrofi ac yn cynhyrchu rhaglenni tebyg i 'Helo Bobol'. Bob nos roedd 'na ddigonedd o ddewis — Ceilidh fan hyn, a Cheilidh fan draw. Roedd y rhain yn debyg iawn i'n noson lawen anffurfiol ni ond bod yna ddawnsio mawr yn mynd ymlaen.

Gwelsom harddwch yr ynys a theithio o un pen iddi i'r llall, a rhyfeddu at amrywiaeth y golygfeydd — milltiroedd o rostir a mawn, yna'n sydyn dringo'n uchel i ganol mynyddoedd a llynoedd, disgyn wedyn i draethau melyn. Rhyfeddwn at lonyddwch a thawelwch y wlad — fel pe na bai dyn wedi troedio yno o gwbwl.

Bydd, mi fydd atgofion am f'ymweliad â'r Ynys Hir yn aros yn fyw yn fy nghof am hir — y croeso twymgalon, cyntefigrwydd yr ynys, y cromlechi a'r godwm i fwd mawnoglyd a gefais wrth ddringo i weld meini hir, a'r anrheg anghyffredin a dderbyniais wrth adael yr ynys — clamp o bwdin gwaed!

## Croeso i Landaf

Mae'r Parch Dafydd Owen a fu'n Gaplan Ieuenctid Canolfan y Bala gyda'r Hen Gorff erbyn hyn wedi ymgartrefu yn Western Avenue, Caerdydd, ac yn gymydog i'r Parch T.J. Davies. Fe sydd wedi cymryd swydd y Parch Morgan Mainwaring, Ysgrifennydd y Genhadaeth, sydd ar fin ymddeol. Mae ei frwdfrydedd dros Grist yn heintus ac fe'i teimlwn yn anrhydedd fawr ei fod yn byw yn ein plith. Ein braint ni yw cael ei adnabod yn well. Mae ei briod Brenda yn athrawes Cerddoriaeth a Chymraeg yn Ysgol Ynysawdre, Tondu, a'r mab Rhys yn ddisgybl 6ed Dosbarth yn Ysgol Cantonian a Rhian y ferch yn ysgrifenyddes yn y ddinas.

I Palace Rd, nad yw nepell oddi wrtho, mae Pennaeth newydd Radio Cymru wedi dod. Croesawn Mr Meirion Edwards a'i deulu bach yr holl ffordd o Sir Fôn i'n plith gan wybod bod gwaith aruthrol fawr ganddo i'w wneud dros y genedl mewn cyfnod o argyfwng yn ei hanes.


**HYSBYSEBU**

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**43 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222-396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)

# Gwrand'wch!

# RADIO CYMRU

## yn newydd ar gynnydd bob dydd ar

# 92–95 VHF FM

## o ddydd Llun, Tachwedd 19

## YR IAITH AR WAITH

# CALIFFORNIA, CANADA, CYMRAEG — JOHN ALBERT EVANS AR DAITH

Anodd iawn ar yr wyneb ydyw gweld cysylltiad amlwg rhwng y tri uchod ond rwy'n rhyw hoffi meddwl bod yr iaith Gymraeg fymryn bach yn gryfach yng Nghanada a Chaliffornia o ganlyniad i ymdrechion Cennard a mi yn y rhannau yna o'r byd yn ystod yr haf. Mae'n werth troi'n alltud ambell dro... ; digon gwir, rwy'n meddwl, yr hen ystrydeb hon, ac rwy'n wir ddiolchgar am y cyfle i groesi Mor Iwerydd i gael cwrdd â llawer o Gymry da sy'n dal i gydymdeimlo â phroblemau mawr yr iaith yn ein gwlad.

Yr haf eleni cafwyd y Cwrs Cymraeg cyntaf i Oedolion Califfornia a chynhaliwyd y cwrs yng Ngholeg Dominican San Raffel. Roedd 48 wedi cofrestru a'r trefniadau yng ngofal Mr John Nicholls — cefnder y Dr. Meredydd Evans — a oedd wedi trefnu'n fanwl a gofalus. Mawr oedd y croeso gan bobl y cwrs a phobl y Gymdeithas Gymraeg yn gyffredinol yn y dalaith boeth hon. Roedd hi mor braf codi yn y bore a gwybod cyn codi y byddai'r tywydd yn braf trwy'r dydd. Gwnaethom apel eleni tuag at Ganolfan Iaith Nantgwrtheyrn a mawr oedd y diddordeb yn y fenter gyffrous hon. Cawsom bobl oedd yn barod i ddod draw i helpu gyda'r adeiladu yn rhad ac am ddim, rhai eraill oedd yn addo trefnu cyngherddau ac yn y blaen i godi arian a hefyd rhyw dri chant ar ddeg o ddoleri i'r gronfa. Mawr yw ein gobaith am ddyfodol y fenter hon.

Yng Nghanada roedd llawer o bobl oedd wedi bod ar gyrsiau o'r blaen i geisio dysgu'r iaith ac roedd yn hyfryd gweld bod llawer ohonynt ar y ffordd bellach i fod yn Gymry Cymraeg. Diddorol yw canfod y fath ddiddordeb ymhlith pobl sydd erioed wedi bod yn y wlad yma, a'u hymdrechion caled i ganfod eu gwreiddiau unwaith eto. Dymuniad llawer ohonynt yw dychwelyd i fyw i Gymru ac i weithio dros yr achos yma.

Cawsom gyfle i ymweld â'r theatr broffesiynol yn Niagara on the Lake. Roedd y 'Shaw Festival' ymlaen yn y theatr yr un adeg â'n cwrs. Aethom fel grwp un noson i weld y ddrama 'The Corn is Green' gan Emlyn Williams ac ar ôl y perfformiad cawsom gyfle i drafod y cynhyrchiad gyda'r cyfarwyddwr. Roedd y cynhyrchiad yn weddol dda ar y cyfan ar wahan i'r ffaith fod acenion Gwyddelig y Cymry Cymraeg yn y ddrama yn swnio'n ddieithr iawn i ni a'i bod yn amhosibl bron deall brawddegau'r ddrama yn yr iaith Gymraeg. Yr hyn oedd yn ddiddorol iawn i ni oedd fod pawb o'r cwrs mor barod i ddatgan eu teimladau mor gryf am y ddrama ei hun. "Celwydd o ddrama!," meddent, "doedd pobl ardaloedd diwydianol y gogledd ddim yn anllythrennog o bell ffordd yn y cyfnod hwn ar waethaf y ffaith fod eu gafael ar yr iaith Saesneg yn brin iawn. Roeddent i gyd yn ffrwyth y diwylliant Cymraeg cyfoethog oedd yn bodoli yn y rhan yna o'r byd yn y cyfnod hwnnw."

Pobl sydd yn gwneud teithio'n ddiddorol, a byddwn yn gallu ysgrifennu'n hir, hir iawn am lawer cymeriad diddorol tu hwnt y bum yn ddigon ffodus i'w cwrdd eleni; yn anffodus does dim digon o ofod yn y papur. Wna i ddim ond sôn yn gyflym am Pegi Jones o Rensen, Efrog Newydd. Roedd gwreiddiau Pegi yng Ngarndolbenmaen ond doedd hi erioed wedi bod yng Nghymru. Roedd hi'n un o chwech o blant a phob un ohonynt yn rhugl yn y Gymraeg. Mae Pegi bellach yn briod ag Americanwr di-Gymraeg ond mae hi wedi llwyddo i godi tri o blant sy'n siarad Cymraeg yn iawn. Pan ofynnais iddi a oedd hyn wedi bod yn ymdrech fawr atebodd yn syth,"Ddim o gwbl. Y peth naturiol i mi oedd siarad Cymraeg â nhw bob amser, a doedd hi ddim yn broblem." Go dda yn wir!

Cawsom gyfle i ymweld â'r Gymanfa Ganu Genedlaethol yn Niagara cyn dychwelyd i Gymru; roedd peth o'r canu'n dda ond roedd awyrgylch yr holl beth yn rhyw ffug-Seisnig a'r dysgwyr yn barod iawn i ddatgan eu teimladu'n huawdl a dweud wrth y trefnwyr nad oeddent hwy eisiau clywed Saesneg o gwbl yn y Gymanfa, ac mai Cymraeg yn unig ddylai'r emynau fod. Roedd llefarydd Tŷ'r Cyffredin, ie, y Cymro glân hwnnw, Mr George Thomas, yn bresennol ac wedi cael araith wedi ei pharatoi yn Gymraeg, ond meddai 'I decided at the last minute, why should I bore them all by speaking in Welsh, so I made my speech in English.'

Hedfanodd yr amser, ac ar ôl wythnosau difyr a diddorol daeth yn amser i ninnau hedfan yn ôl i Gymru. Diflas oedd clywed ym mherfedd Morgannwg Ganol ddiwrnod ar ôl dychwelyd, "I spoke Welsh up to a few years ago, but I'm afraid...." Daeth Pegi Jones yn ôl yn fyw iawn i'r cof. Rhyw greaduriaid rhyfedd yn ni ynte!


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

## Cynorthwyr/Cynorthwywraig Bersonol

Y mae angen person i gynorthwyo'r Cyfarwyddwr yn Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod yng Nghaerdydd.

Rhaid wrth brofiad o redeg swyddfa ynghyd â chymwysterau teipio/llaw fer da a bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu'r Eisteddfod bob Awst.

Cyflog: £3,087 i gychwyn ac yn codi hyd uchafswm o £3,584 y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth i gyflog cychwynnol uwch os cynigir cymwysterau arbennig, ac mae'r graddfeydd cyflog dan ystyriaeth bellach ar hyn o bryd.

Ceisiadau teipiedig, yn cynnwys manylion am addysg, cymwysterau a phrofiad i'r Cyfarwyddwr, Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod, 10 Park Grove, Caerdydd.


## COFIWCH YR APÊL

(Archeb tud. 8)

## MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cofiwch fod swyddfa'r Mudiad wedi symud bellach o'r Ganolfan i 89 Heol Llanishen Fach, Rhiwbeina. Ffôn: Caerdydd 612690. Ydych chi'n cyfrannu i gronfa'r Mudiad? Os ydych chi, wel ardderchog, ond os nad ydych chi, beth am ddechrau nawr drwy anfon eich rhodd i'r cyfeiriad uchod? Mae llwyddiant y Mudiad yma yn allweddol ym mrwydr yr iaith.**

Mae 13 o gylchoedd meithrin Cymraeg yn Nghaerdydd, ac oherwydd dylanwad a phwysau rhieni'r cylchoedd yma, mae Awdurdod Addysg De Morgannwg wedi gorfod ymateb i'r galw a sefydlu Ysgol Uwchradd Gymraeg, ac agor yr ail ysgol gynradd Gymraeg yn yr Eglwys Newydd. Mae sôn y bydd mwy o ysgolion cynradd Cymraeg yn y ddinas erbyn y flwyddyn nesa — o leiaf ddwy neu dair. Felly ,fe welwch bwysigrwydd Mudiad Ysgolion Meithrin. Cefnogwch y gwaith, da chi.

Llongyfarchiadau i Siân Piper gynt ar ei phriodas yn ystod yr haf â Martin Rolph. Gŵr o Benbedw ydy Martin a ddysgodd Gymraeg ar Gwrs Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd. Bu Siân yn athrawes yn Adran Gymraeg Ysgol y Creigiau, ond bellach mae hi wedi derbyn swydd Cynghorydd Cenedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin.

Croeso hefyd i Miss Bethan Ann Edwards i Gaerdydd ac i Swyddfa'r Mudiad.

## ADRANNAU PENTRE YR URDD

Mae nifer o'r rhain mewn ardaloedd megis y Rhath, Rhiwbeina, Llandaf a'r Eglwys Newydd, Rhydypennau (bob Nos Fawrth) ac mae sôn am sefydlu mwy o fewn y ddinas. Mae'r oedran y gall plant ymuno â'r rhain yn amrywio o wyth i naw hyd at unarddeg oed. Yna, trefnir Uwchadran Gymraeg bob nos Lun yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy i blant yr Ysgolion Uwchradd rhwng 12-14 oed. Os nad oes Adran Bentre yn eich ardal chi, beth am fynd ati i sefydlu un? Mae'n bwysig iawn i blant Cymraeg y ddinas gael bywyd cymdeithasol yn Gymraeg tu allan i furiau'r ysgol. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Warden y Ganolfan (Ffôn: Caerdydd 36201).

# PYTIAU

## TYFIANT MAWR YN LLANHARI

Bu disgwyl mawr am fabanod gan dri o athrawon yr Ysgol ond feddyliodd neb y cyrhaeddent ar yr un diwrnod dydd Iau, Medi'r 27.

Ganwyd merch, Catrin Medi, i Mrs Susan Williams yn yr Adran Gwyddor Tŷ, ac i wraig Mr David Charles yn yr Adran Gemeg daeth merch fach arall, Lisa Medi.

Mae Mrs Lyn Guy yn yr Adran Ymarfer Corff yn briod ag Iwan Guy, y canwr o ardal Caerdydd, brawd Alun a Jaynie, un o deuluoedd enwog Minnie St. Mae'n dysgu yn Ysgol Heol y Celyn, Pontypridd ar hyn o bryd. Iddyn nhw ganwyd mab bach, Tomos.

Llongyfarchiadau iddyn nhw i gyd a Gwyn Eu Byd.

Pwy oedd y bachgen lwcus a gafodd ei groesawu i'r byd trwy record Dafydd Iwan ar Helo Bobol ond mab Mr a Mrs Derek Williams, un o gynhyrchwyr Heddiw. Croeso mawr iddo a phob bendith ar y teulu.

## CLOD MAWR YN Y GENEDLAETHOL

Roedd cael mynd i Gaernarfon a gweld perfformiad o 'Priodas Waed', cynhyrchiad Emily Davies o waith myfyrwyr Aberystwyth yn brofiad theatrig gwych i'r rhan fwyaf ohonom, ond i ni o Gaerdydd roedd hi'n wych gweld dwy ferch o ardal y Dinesydd yn cael amlygrwydd arbennig.

Anodd iawn fyddai hi i'r rhan fwyaf ohonom sylweddoli bod prif-ran y merched yn cael ei hactio gan ferch o Redlands Rd, Penarth, o Ysgol Gyfun Stanwell na allai siarad gair o Gymraeg naw mlynedd yn ôl. Christie Watkins oedd ei henw hi ac fe ddysgodd Gymraeg yn Adran Gymraeg Mr Alwyn Prosser, a roedd ei pherfformiad yn un gwefreiddiol.

Catrin Lewis, merch Mr Kynric a Mrs Bethan Lewis, Llysfaen, yw'r un arall o Gaerdydd sy'n teilyngu sylw arbennig. Hi oedd y forwyn, a roedd ei dawn hithau fel actores yn amlwg, yn werth ei gweld, yn arbennig felly gan mai merch i un o feibion Sir Fôn oedd yma, yn dynwared acen a iaith gwŷr Cwmtawe, a'i wneud yn effeithiol iawn.

## PRIODAS

Priodwyd dau adnabyddus iawn inni bellach yng Nghylch Caerdydd yn Aberystwyth dros yr haf, Miss Elspeth Jones a Mr Iolo Lewis, y naill yn athrawes Gerddoriaeth yn Ysgol Rhydfelen a'r llall yn Bennaeth yr Adran Ysgrythur yn Ysgol Llanhari. Pob bendith ar yr uniad hapus hwn.

## NEWYDD-DDYFODIAID

Cyrhaeddodd Gwenfair, baban newydd Mr a Mrs Michael Jones y byd yma mewn pryd i'w chrybwyll yn y rhifyn hwn. Croeso iddi, a'n cyfarchion gwresocaf i'w rhieni.

Bedyddiwyd Gwyn Morris, mab cyntaf-anedig Mr a Mrs Noel Brain yn Seiat Heol y Crwys, nos Iau, Medi'r 13. Dyma'r tro cyntaf i'r Gweinidog, Mr Cynwil Williams fedyddio yn y Seiat.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i'r Meddyg Mr Ieuan Huws. Mae wedi'i ddyrchafu'n ymgynghorydd yn Adran Blant Ysbyty'r Mynydd Bychan. Mae e'n hannu o un o deuluoedd enwog Caerdydd, yn fab i Mr a Mrs Arwel Hughes, yn frawd i Owain a Delun. Mae'i wraig hefyd yn un o ferched Caerdydd 'Mac' fel y mae cymaint ohonom yn ei hadnabod. Mae'n dda gwybod y byddan nhw a'r plant bach yn parhau i fod gyda ni am amser eto.

## MARWOLAETH

Yn gynnar ddechrau'r tymor daeth y newyddion trist am farwolaeth mam Mrs Mary William (sef Mary Middleton fel y byddem yn ei hadnabod cyn iddi briodi pan weithiai i Uned Heddiw ac y gwelem hi'n gyson ar y set deledu, ac wedyn yn Sain Ffagan yn yr adran dafodieithoedd). Merch o Dredegar Sir Fynwy oedd ei mam, gwraig y mae'i gŵr a'i merch mewn galar dwys ar ei hôl. Cafodd ofal tyner iawn ganddynt yn ei llesgedd.


"Fyddwn i ddim yn buddsoddi heb gâl

16% p.a.

y flwyddyn a châl fy arian nôl pan fynna i. Ond dyna be rwy'n gâl."

Eitha reit hefyd. Dyna be gewch chi gyda Banc Masnachol Cymru.

Mae gan Fanc Masnachol Cymru gynlluniau di-ail ar gyfer y sawl sy'n cynilio ychydig bach. Nawr rydym newydd godi eich llog chi i 16 % y flwyddyn. Fe gewch eich arian nôl yn syth pan ofynnwch amdanyn nhw i glirio dyled, i dalu am wyliau, am gar newydd neu i siopa, fel y mynnwch chi.

Ac fe gewch bob ceiniog o'r llog sy wedi'i ennill hyd yr union ddiwrnod y tynnwch eich arian allan a'r cwbl wedi'i weithio allan fesul diwrnod. Gallwch fuddsoddi'n ddiogel gyn lleied â phunt am gyhyd neu am gyn lleied o amser ag y dymunwch. Ac fe fyddwch yn gwybod i sicrwydd y caiff eich arian eu defnyddio'n gall ar eich rhan.

Yn yr enghreifftiau a gaiff eu hysbysebu gennym, dyna beth wnaeth ein cwsmeriaid ddweud wrthych.

Oni ddylech chithau ystyried rhoi ychydig bach i gadw ym Manc Masnachol Cymru?

*Manylion pellach ynghyd ag Adroddiad a Chyfrifon os gofynnir amdanynt.*

Commercial Bank of Wales Limited

BANC MASNACHOL CYMRU

Cyllid wrth guriad calon Cymru

*Prif Swyddfa - 114-116 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF1 1XJ. Tel. 0222 396131*

*Cangen Gogledd Cymru - 31 High Street, Wrecsam LL13 8LB. Tel. 0978 51082*

# AMGUEDDFA DIWYDIANT A MÔR CYMRU

**Agorwyd y rhan gyntaf o'r Amgueddfa ychydig dros ddwy flynedd yn ôl ynghanol ardal y dociau yng Nghaerdydd. Sefydliad lled newydd yw hwn ac ym mhen amser, pan fydd cyllid yn caniatau fe geir nifer o adeiladau ar lan y môr yng Nghaerdydd fydd yn cynnwys casgliad helaeth o wrthrychau sy'n dehongli traddodiadau â hanes diwydiant yng Nghymru. Yr hyn yw Sain Ffagan i'r Gymru wledig bydd Amgueddfa'r Dociau i'r Gymru ddiwydiannol.**

Er bod gan yr Amgueddfa eisoes gasgliad helaeth, dim ond rhan fechan sydd i'w gweld ar hyn o bryd. Yn yr adeilad modern ar waelod Stryd Bute, ceir nifer o beiriannau sy'n olrhain datblygiad nerth a phwer mewn diwydiant. Yma gwelir peiriannau stêm i bwmpio awyr iach i bwll glô, a dwr i dre Llandrindod; peiriannau a ddefnyddid mewn carffosiaeth ac i yrru awyrennau. Y tu allan ceir casgliad o gerbydau sy'n dangos datblygiad trafnidiaeth ar dir a môr. Mae yma rai o fysiau Caerdydd a cherbydau rheilffordd Dyffryn Tâf, ac yn ddiweddar agorwyd y llong dynnu, y SEA ALARM, i'r cyhoedd.

Gan fod yr Amgueddfa wedi ei lleoli ar stryd sy'n enwog drwy'r byd, un o brif weithgareddau'r misoedd diwethaf fu ceisio darganfod rhywbeth o hanes cythryblus dociau Caerdydd, y dociau prysuraf o holl ddociau Prydain hanner canrif yn ôl. Hwyliai llongau oddiyno i bob rhan o'r byd wedi eu llwytho â glô'r Rhondda. Yr oedd Heol Bute yn berwi â bywyd, ac yr oedd swyddfeydd dros gant o berchenogion llongau yno. Yn yr Hydref trefnir arddangosfa o hanes dociau Caerdydd yn yr Amgueddfa, ac eisoes mae'r staff wedi casglu ynghyd gasgliad sylweddol o ddogfennau a darluniau, modelau a gwrthrychau sy'n olrhain hanes cyfnod euraidd y ddinas.

Wrth gwrs, heblaw y datblygiad yn nociau Caerdydd, mae'r Oriel Ddiwydiant yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn dal yn rhan hanfodol o'r Amgueddfa Diwydiant a Môr. Yma hefyd fe welir datblygiadau o fewn y misoedd nesaf. Ar y llawr trefnir arddangosfa o ddatblygiad rheilffyrdd yng Nghymru a chanolbwynt yr arddangosfa fydd model o reilffordd gyda nifer o drenau yn rhedeg ar y cledrau. Ar y llawr cyntaf, ceisir dangos y datblygiadau diweddaraf yn niwydiannau Cymru, ac mae nifer o gwmniau yn paratoi arddangosfeydd yn arbennig i'r oriel. Er enghraifft, cyn diwedd y flwyddyn bydd arddangosfa o weithgarwch cwmniau British Oxygen a Ford ynghyd ag Awdurdod Datblygu Cymru i'w gweld yma, a phrif bwrpas y rhan yma o'r amgueddfa yw dangos gwaith cwmniau sydd wedi buddsoddi yn drwm yng Nghymru.

Yn y gogledd, mae Amgueddfa Chwareli Gogledd Cymru yn denu nifer fawr o ymwelwyr i ardal Chwarel Dinorwig, ac yma hefyd mae llawer o ddatblygiadau newydd i'w gweld. Y datblygiad diweddaraf yw ail-greu hen ysbyty'r chwarel, a thrwy gydweithrediad yr Amgueddfa Diwydiant a Môr a Chyngor Arfon gall ymwelwyr â Llanberis weld chwarel go iawn yng nghyffiniau'r amgueddfa. Yn Chwarel Dorothea yn Nyffryn Nantlle mae gan yr amgueddfa y peiriant ager olaf yn chwareli'r gogledd, ac mi drefnir arddangosfa arall yma.

Yn ddiweddar prynodd yr Amgueddfa yr hen long, SEIONT II, a thrwy gydweithrediad â nifer o bobl yn nhre Caernarfon, gobeithir datblygu amgueddfa'r môr ar y cei gerllaw'r Castell. Mae'r amgueddfa hefyd yn trafod y posibilrwydd o sefydlu cangen arall yn Mhorthmadog, a oedd mor bwysig fel porthladd yn hanes Cymru.

## Y Curadur

Curadur Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru yr Geraint Jenkins, brodor o Langrannog, Ceredigion. Cyn iddo gymryd ei swydd bresennol, bu am ddeunaw mlynedd ar staff yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan. Mae wedi cyhoeddi 25 o lyfrau a nifer fawr o erthyglau yn ymwneud â hanes crefft a diwydiant yng Nghymru. Ef yw Cadeirydd y Gymdeithas i Ddehongli Treftadaeth Prydain. Y flwyddyn nesaf bydd yn treulio cyfnod yn Ninas y Llyn Halen, Utah, U.D.A., ac yn traddodi nifer o ddarlithiau ar Gymru i Gynhadledd fyd eang y Mormoniaid, ac ym Mhrifysgol Utah.

Ym mis Awst, fe'i gwnaed yn Aelod o'r Orsedd, ynghyd â'r ddau arall o Gaerdydd (Mr A.H. Williams a Mr Meic Stephens) y soniwyd amdanynt yn rhifyn Gorff.-Awst Y Dinesydd. Dihangodd Mr Jenkins, rywfodd, o'r rhwyd bryd hynny, ond cymerwn y cyfle nawr i'w longyfarch yn wresog ar ei anrhydeddu gan yr Orsedd, a hithau eto am fod mor ddoeth â gwneud hynny.

# Merched y Wawr yn y Barri

**Mae tymor newydd y gymdeithas eisoes wedi dechrau, gyda dau gyfarfod rhagorol a boddhaol dros ben.**

**Ym mis Medi cafwyd noson gymdeithasol yn rhoi cyfle i aelodau hen a newydd gyfarfod â'i gilydd. Cawsom fwynhad wrth wrando ar Nerys Avery, Eleri Evans a Sioned Wiliam yn canu ac adrodd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r merched ifanc talentog yma am eu cyfraniad at noson mor bleserus. 'Roedd y trysorydd hefyd yn ddiolchgar fod yr arwerthiant wedi bod yn llwyddiannus.**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn Neuadd Sant Nicolas. Y siaradwr oedd y Parch. T.J. Davies. 'Roedd hi'n bleser gwrando ar ei sgwrs huawdl. Soniodd am ei daith i'r America i ymchwilio i fywyd Paul Robson.

Dywedodd am ei brofiad yn pregethu mewn eglwys yn Harlem o flaen cynulleidfa o dros dair mil o ddynion du, ac yna yn cael cymeradwyaeth frwdfrydig ar ddiwedd ei bregeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd Sant Nicolas ar nos Fawrth, Tachwedd 6ed am chwarter i wyth. Mae Mrs Heulwen Davies, Is-Lywydd y gymdeithas yn Y Barri, am ddangos i ni sut i wneud melysion o bob math.

Dewch i ymuno â ni. Mae croeso yn eich disgwyl.

Mrs S. Bryn Evans
32 St. Osyth Court
Y Barri
Y Barri 733561

# PYTIAU

## FFARWELIO

**'R'yn ni'n teimlo mai newydd groesawu Emyr a Dulcie James, Beatty Ave, ydym ni i Gaerdydd, a mae'n chwith iawn meddwl mai ffarwelio sydd raid. Mae Emyr yn gweithio gyda Banc Midland a mae'n rhaid iddo symud i Abergwaun. Fe fydd hi'n chwith iawn ar ôl y plant, Gwion a Lowri a holl fywiogrwydd Emyr a gweithgarwch Dulcie yn yr Ysgol Sul ac yn yr Ysgol Feithrin yn y Waun.**

## CYMMRODORION CAERDYDD

Ers blynyddoedd bellach mae wedi bod yn arfer gan y Gymdeithas gefnogi dysgwyr ifanc yr iaith yn Ysgolion Uwchradd y ddinas drwy gyflwyno math o ysgoloriaethau i ddau berson i fynd i'r Eisteddfod Genedlaethol. Eleni, daeth tro Canolfan yr Urdd i dderbyn yr ysgoloriaethau hyn, gwerth £30 yr un. Dewiswyd dwy ferch sy wedi bod yn fynychwyr cyson y Grŵp Cymraeg i ddisgyblion pumed a chweched dosbarth yn yr Aelwyd. Y ddwy oedd Tracey Bevan o Grangetown oedd yn astudio Cymraeg dan Mr Eirwyn Evans yn Ysgol Fitzalan a Jill Horwood, Trelai oedd yn astudio Cymraeg dan Mrs Falmai Griffiths yn Ysgol Gyfun Glynderw. Erbyn hyn mae Tracey yng Ngholeg Prifysgol Llanbedr Pont Steffan a Jill yn dilyn cwrs ysgrifenyddiaeth ym Mholitechnig Cymru yn Nhrefforest. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Gymdeithas y Cymmrodorion am eu cymwynas.

## CYFOD DY WELY...

Na nid cweit — ond mae Eglwys Dewi Sant am ei mentro hi'r flwyddyn nesaf, yr holl ffordd i Oberammergau, i weld y perfformiad deng mlynyddol o stori bywyd Iesu Grist. Yn ôl a ddealla'r Dinesydd, mae brwdfrydedd mawr yn cyniwair drwy'r aelodau. All haf 1980 ddim dod yn ddigon cynnar!

## UN TEULU, DAU DDIACON

Cyn yr haf daeth y newyddion i un diacon ifanc iawn gael ei ethol i Gapel Ebeneser, Heol Siarl, o deulu yn y Mynydd Bychan. Bu Mr Ambrose Williams yn golofn ac yn ddiacon yn achos Ebeneser ers blynyddoedd, pan deithiai'r holl ffordd o Talbot Green lawr i Gaerdydd i addoli ar y Sul a dod â'i ddau fab gyda fe a Mrs Williams. Erbyn hyn mae'r un mab, Mr Penri Williams yn gynghorydd yn y Creigiau a'r llall wedi'i ethol yn Drysorydd yng Nghapel ei febyd, Ebeneser.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 43 Lower Cathedral Rd, Caerdydd. C 2500*